# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Pennaeth: Miss Elan Bolton

Heol Folly, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP48JD

Tel : (01495) 750405 www.gwynllyw.cymru

YGGSwyddfa@gwynllyw.schoolsedu.org.uk


1af o Orffennaf, 2020

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n dda a da iawn am oroesi hyd yn hyn.

Yn amlwg, mae'r sefyllfa yn yr ysgol yn dra gwahanol eleni a dydy'ch plant, yn anffodus, ddim wedi cael y cyfle i ddod i Wynllyw i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau pontio.

Fel arfer, mae dyddiau pontio yn gyfle i'r disgyblion gael blas o fywyd yn yr ysgol a hefyd gofyn cwestiynau ac chael gwybodaeth ynglŷn â'r ysgol.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod symud o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 mewn ysgol newydd yn gam mawr ym mywyd y plant ac yn eich bywydau chi fel rhieni a gobeithiwn y gallwn dawelu'ch meddwl rhyw ychydig gyda'r wybodaeth isod.

**Gwybodaeth Bersonol**

Os gwelwch yn dda agorwch a llenwch y daflen wybodaeth bwysig sydd yn y linc isod, a dychwelwch cyn dydd Gwener, Gorffennaf y 10fed os gwelwch yn dda:

https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSeIO2h9YNG_tDnkXdhF5amyDzm6XODg0VJxOELElcVJsi48Yw/viewform?usp=sf_link

Mae'r daflen hon yn caniatáu i'ch manylion personol gael eu cofnodi'n syth ac yn golygu bod modd i ni gysylltu â chi'n uniongyrchol yn ystod y cyfnod yma cyn i'ch plentyn ddechrau yn Ysgol Gyfun Gwynllyw ac wrth gwrs ar hyd ei yrfa ysgol. *Os bydd eich manylion personol yn newid ar unrhyw adeg, os gwelwch yn dda rhowch wybod i'r swyddfa yn syth*.

**Gwisg ysgol**

Mae'n siwr bod rhai ohonoch chi'n poeni am sefyllfa gwisg ysgol ac a oes angen prynu ai peidio.

Y cyngor ar hyn o bryd yw i *beidio* â phrynu gwisg ysgol newydd Ysgol Gyfun Gwynllyw i'ch plentyn

gan nad yw'n glir sut bydd y flwyddyn academaidd nesaf yn edrych. Gwell felly byddai peidio â buddsoddi mewn gwisg ysgol ar hyn o bryd, nes bydd mwy o wybodaeth – gobeithio yn agosach at fis Medi. Peidiwch â phoeni! Mae gan gwmni Rugabug ddigon o stoc gwisg ysgol i'w werthu pan fydd galw.

**Cylchgrawn Gwynllyw**

Mae modd dod o hyd i gylchgrawn yr ysgol sef Llais y Llyw ar y tab 'Cylchgrawn Gwynllyw' ar wefan yr ysgol sef: www.gwynllyw.weebly.com

Yn y cylchgrawn, mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol am yr ysgol a hefyd gallwch ddod i adnabod y staff cyn cwrdd â nhw trwy edrych ar broffiliau'r staff.

Hoffai tiwtoriaid blwyddyn 7 ddod i adnabod eich plentyn cyn iddo/iddi ddechrau hefyd, felly a fyddai modd i'ch plentyn e-bostio proffil neu wybodaeth amdano'i hun i'r cyfeiriad isod cyn dechrau gyda ni ym mis Medi os gwelwch yn dda?

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Cofiwch ddefnyddio Facebook (Ysgol Gyfun Gwynllyw) a Twitter (@YsgolGwynllyw) yr ysgol i gadw llygaid ar yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweithdrefnau'r ysgol. Hefyd mae gennym dalen 'Pontio' ar wefan yr ysgol lle rydyn ni'n eich diweddaru chi gyda'r wybodaeth fwyaf ddiweddar.

Yn olaf, bydd gwybodaeth yn dilyn maes o law ynglyn â llys, dosbarth cofrestru a thiwtor eich plentyn.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu trwy'r e-bost pontio@gwynllyw.org

Rydyn ni'n croesawu cyfathrebu gyda rhieni ar bob adeg a byddwn ni wastad fel ysgol yn ceisio ateb unrhyw bryderon neu gwestiynau sydd gennych chi. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau presennol, efallai na fydd yn bosib i ni fedru ateb pob cwestiwn sydd gennych chi nes ein bod ni'n cael cyfarwyddyd a gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Addysg Lleol.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â'ch plentyn a chithau yn y dyfodol agos.

Cadwch yn ddiogel,

Mr Evans

Pennaeth Cynnydd Bl7 YGG

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

## Pennaeth: Miss Elan Bolton

Heol Folly, Trefddyn, Pontypŵl, Torfaen, NP48JD

Tel : (01495) 750405 www.gwynllyw.cymru

YGGSwyddfa@gwynllyw.schoolsedu.org.uk

1st of July, 2020

Dear Parent/Guardian,

I hope that you are well and well done for surviving thus far!

Evidently, the situation in school is very different this year, and unfortunately your child has not had the opportunity to come to Ysgol Gyfun Gwynllyw to participate in different transition activities.

These transition days are usually an opportunity for pupils to have a taste of their new school, ask any questions they may have and receive information about the school.

We appreciate that the transition from year 6 to year 7 is a big milestone the children's life, as it is indeed in your lives as parents. We hope that the information provided below will help ease your minds a little.

**Personal Information**

Please open and fill the important personal information form by clicking on the link below. Please return this form online no later than Friday 10 July.

https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSeIO2h9YNG_tDnkXdhF5amyDzm6XODg0VJxOELElcVJsi48Yw/viewform?usp=sf_link

This information sheet allows your personal information to be recorded straight away and means that we can contact you during the period before your child starts school, as they enter year 7 at Ysgol Gyfun Gwynllyw and for the rest of their school career. *If at any point your personal details change, please contact the school office as soon as possible*.

**School Uniform**

I am sure many of you are worried about the school uniform situation and whether or not you need to buy one.

The current advice is *not* to buy a new Ysgol Gyfun Gwynllyw school uniform for your child as it isn't clear how the next academic year will pan out. It would be better therefore not to invest in a school uniform until more information is available – hopefully closer to September. Don't worry! Rugabug (the company who supply our school uniform) has plenty of school uniforms to sell when the time comes.

**School Magazine**

It is possible to find the school magazine 'Llais y Llyw' on the 'Cylchgrawn Gwynllyw' tab on the school website: www.gwynllyw.weebly.com

There is a lot of useful information about the school in the magazine and you can also get to know the staff before meeting them by looking at staff profiles.

Year 7 tutors would like to get to know your child before they start too, so would your child be able to e-mail a profile or information about himself/herself to the below address before they start with us in September, please?

**Social Media**

Remember to use the school's social media accounts - Facebook (Ysgol Gyfun Gwynllyw) and Twitter (@YsgolGwynllyw), to keep an eye on the latest information regarding school procedures. We also have a 'Pontio' (Transition) page on the school website which will be updated with the most recent information.

Finally, you will shortly receive information regarding your child's house, registration class and tutor.

In the meantime, you're welcome to contact via e-mail: pontio@gwynllyw.org

We always welcome communication with parents and as a school we always try to answer questions or concerns you may have. However, under current circumstances, maybe we will not be able to answer every question until we have further guidance and information form Welsh Government and the Local Education Authority.

We look forward to meeting your child and yourselves in the near future.

Keep safe,

Mr Evans

Year 7 Head of Progress YGG